

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Medi 1af 2026 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Gwenda Evans, (cadeiryddes), Alwyn Jones, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Dewi Pritchard, Gwenda Morris, Eifion Davies, Iolo Evans, Rita Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynedd Jones a Maldwyn Jones.

Cydymdeimlwyd a'r clerc yn dilyn ei phrofedigaeth ddiweddar,

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mehefin a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.

i) Coed y Mynydd Du ger Derwgoed - roedd Cyngor Gwynedd wedi cysylltu â pherchennog y coed i ofyn iddynt i dorri'r canghennau a oedd yn dod drosodd i'r ffordd.

ii) Cais am arwyddion ym mhentref Glanrafon yn nodi fod plant yn chwarae ar y ddau lecyn glaswellt o flaen y tai i annog perchnogion cwn i glirio ar eu holau – cafwyd cadarnhad fod ein cais wedi cael ei anfon ymlaen i'r adain berthnasol yn Cyngor Gwynedd.

iii) Arolwg Cymunedol – cafwyd cadarnhad na fyddai'r nifer o gynghorwyr yn newid wrth iddynt uno'r ddwy ward o fewn y Cyngor Cymuned.

iv) Ffordd newydd yn Ciltalgarth – cafwyd cadarnhad gan y Parc Cenedlaethol fod Tillhill wedi derbyn caniatad cynllunio ar gyfer y ffordd ac nid oedd yn gais a oedd angen ymgynghori arno. Roedd Uned Gwaith Stryd Cyngor Gwynedd yn fodlon gyda'r arwyddion a osodwyd wrth y fynedfa i rybuddio gyrrwyr hefyd.

b) Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned 2026.

Cafwyd diweddariad am y prosiect gan y clerc.

c) Problemau parcio pentref Llandderfel.

Roedd cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus wedi dod i ben ac roedd amryw o'r trigolion lleol wedi cyflwyno sylwadau. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd i drafod y cynllun ymhellach.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cwmni Pum Plwy Penllyn.

i) Car Cymunedol – taith o gwmpas pentrefi, 8/9/26.

b) Cyngor Gwynedd.

i) Cyfyngiad traffig dros dro – Llandderfel, 7/09/26 & 16/09/26.

ii) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd ar gyfer mis Awst.

iii) Arolwg diwygio bysiau Gogledd Cymru.

c) Un Llais Cymru.

i) Nodyn Datblygu Ymarfer 29: Rôl y Cadeirydd yn ystod Cyfarfodydd.

ii) Grant Llywodraeth Cymru.

ch) Amrywiol.

i) Triathlon y Bala 2026 – 6/09/26.

ii) Ymddeoliad SCCH Iwan Roberts – derbyniwyd gair o ddiolch am y gefnogaeth a gafwyd yn ystod ei gyfnod yn y Bala.

v) Ceisiadau Cynllunio

- i) PEDW - DNS/3276735 - Fferm Wynt Gaerwen – diweddariad ar y wybodaeth a gyflwynwyd i'r Arolygwr.
- ii) C26/0419/04/LL – Codi sied bren i storio coed tan wrth gefn y safle ac addasu mynedfa gerbydol. Capel Methodistiaid, Glanrafon.

Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o wrthwynebiad lleoli i'r cynllun ond nodwyd fod cerrig beddi yn agos iawn i leoliad y sied a byddai angen cymryd gofal i sicrhau na fyddant yn cael niwed.

vi) Materion Ariannol.

a) Derbyniadau.

Derbyniwyd ail randal y Praesept - £7,500.

b) Taliadau.

Cytunwyd i dalu:-

- i) Sion Jones (torri glaswellt y mynwentydd).
- ii) Cyngor Gwynedd (archwiliad mewnol).
- iii) Tomos Hughes (offer difibs).

c) Ceisiadau Ariannol.

Derbyniwyd ceisiadau gan Radio Ysbyty Gwynedd a Cerebral Palsy Cymru a chytunwyd i'w trafod gyda'r gweddill ym mis Mawrth.

vii) Materion lleol.

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-

- i) Sbwriel yn y cilfannau ar yr A494 o Lanrafon i'r Bala.
- ii) Arwyddion ffordd yng Nghefnddwysarn yn cael eu cuddio gan ordyfiant.
- iii) Nid oedd y wal o flaen lloches bws Cefnddwysarn wedi cael ei drwsio.

b) Canghennau coed yn amharu ar wifrau trydan yn Llandderfel.

Adroddodd y Cyng. Elwyn Edwards fod Scottish Power wedi trefnu i dorri coeden ger Capel Rama gan ei fod yn amharu ar y lein drydan uwchben

c) Cwynion i ADRA.

Adroddwyd fod dau fater o bentref Llanfor wedi cael eu cyfeirio at ADRA eisoes ond nid oedd y Cyngor wedi derbyn ymateb hyd yn hyn.

- i) Derbyniwyd cwynion am y gwaith torri glaswellt ym mis Gorffennaf, roedd un safle yn y pentref heb gael ei dorri o gwbl a gafodd glaswellt rhydd ei chwythu fewn i ardd un o'r trigolion gerllaw.
- ii) Nodwyd pryder un o'r trigolion lleol am erydiad glannau'r afon Nant Hafesb ar posibilrwydd y gallai danseilio'r tir yn agos at eu cartrefi.

ch) Sbwriel yn cael ei chwalu ger cyffordd yr A494 yn Llanfor.

Derbyniwyd cwynion fod ysbwriel yn cael ei chwalu o finiau masnachol ger llaw pan maent yn gorlifo neu pan oedd y cwmni yn dod i'w gwagu.

d) Safle parcio o flaen y fynwent yn Llanfor.

Nodwyd fod peth anghytuno wedi bod yn y pentref ynglŷn â'r hawl i barcio cerbydau ar y llecyn tir o flaen y fynwent. Roedd y clerc wedi rhannu'r wybodaeth a dderbyniwyd llynedd gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau nad oedd yn dir cyhoeddus.

dd) Penisa'r Llan, Llanfor.

Roedd y Cyngor wedi derbyn cwynion am lefelau swm yn dod o'r safle a'r cynydd yn y nifer o geir yn parcio o gwmpas y pentref pan roedd digwyddiadau yn cael eu cynnal. Roedd Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd wedi cynghori'r Cyngor y dylai unrhyw gwynion cael eu cyfeirio at yr Adrannau Trwyddedu ac Iechyd yr Amgylchedd gan fod y ceisiadau cynllunio yn y cyfnod apel ar hyn o bryd.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Hydref 6ed am 7.30 y.h. yn Neuadd Sarnau.